# Cyrsiau Hyfforddi Cyfredol

**Mae TPAS Cymru yn cynnal cyrsiau a digwyddiadau ledled Cymru lle gall tenantiaid, preswylwyr, staff ac aelodau'r bwrdd ddysgu sgiliau newydd a rhannu arferion da.**

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

Gellir darparu ystod eang o gyrsiau TPAS Cymru yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a gellir eu darparu 'yn fewnol' a'u haddasu i ddiwallu anghenion sefydliadau penodol.

Gellir newid rhywfaint o gynnwys y cwrs i gyd-fynd ag opsiwn diwrnod cyfan, hanner diwrnod neu ddosbarth meistr. Os hoffech ragor o wybodaeth am y cyrsiau a restrir neu os ydych am drafod eich anghenion penodol a chynnwys y cwrs, mae croeso i chi gysylltu â ni ar:
**02920 237303** neu **01492 593046**

| Ehangu Cyfranogiad | 1 Diwrnod | Hanner Diwrnod |
|---|---|---|
| **Cynnwys Pawb** - sut i roi gwybod i'r gymuned ehangach am yr hyn yr ydych yn ei wneud; beth sydd wedi newid o ganlyniad i'ch gwaith a sut allent gymryd rhan. | ✓ | ✓ |
| **Cyflwyniad i Ymgysylltiad Tenantiaid a Chymunedol** – Pam fod ymgysylltiad tenantiaid a chymunedol mor bwysig? Beth yw'r buddiannau a sut all pobl gymryd rhan yn y ffordd sydd orau iddyn nhw? | ✓ | ✓ |
| **Sut i Ddefnyddio Iaith Syml** – Ydych chi'n defnyddio jargon a thalfyriadau heb sylweddoli? Beth yw iaith syml; pam ei fod mor bwysig, a beth yw'r buddiannau o'i ddefnyddio? | ✓ | ✓ |
| **Recriwtio a Chadw Tenant Wirfoddolwyr** – Cwrs ymarferol gydag awgrymiadau gorau i ddenu (a chadw) gwirfoddolwyr. | ✓ | ✓ |
| **Gwneud i Gyfarfodydd Weithio ac Annog Aelodau Newydd** – Cael gwybod sut y gallwch wneud eich cyfarfod yn ddiddorol, yn groesawgar ac yn effeithiol i aelodau newydd. | | ✓ |
| **Cynnwys Pobl Ifanc** - Darganfyddwch dechnegau y gallwch eu defnyddio i ddenu pobl iau i'ch gweithgareddau a'ch prosiectau. | | ✓ |
| **Ymgysylltu heb Gyfarfodydd** – Sut i annog pobl i gymryd rhan yn eich gwaith heb iddynt orfod mynychu cyfarfodydd. | | ✓ |
| **Ymgysylltu â Grwpiau Amrywiol a Thangynrychioliadol** – Bydd y sesiwn hyfforddi hon yn edrych ar y rhwystrau i gyfranogiad ar gyfer grwpiau amrywiol a thangynrychioliadol ac yn archwilio sut i'w goresgyn. | ✓ | |
| **Cyfathrebu gyda'ch Grwpiau Tangynrychioliadol** – Bydd y cwrs hyfforddi ymarferol hwn yn edrych ar y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu gyda phobl nad ydym yn clywed ganddynt yn aml. | ✓ | |
| **Edrych ar ôl eich Tenant Wirfoddolwyr** – Awgrymiadau a syniadau gorau ar gyfer cefnogi, meithrin a datblygu eich gwirfoddolwyr. | ✓ | ✓ |

| Cyfathrebu a Chyfranogiad Digidol | 1 Diwrnod | Hanner Diwrnod |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad i Gyfranogiad Cyfryngau Cymdeithasol** - Mae'r digwyddiad hanner diwrnod hwn yn edrych ar sut i gymryd y camau cyntaf i gymryd rhan mewn cymunedau trwy gyfryngau cymdeithasol. Sut i nodi ffyrdd gorau o ymgysylltu, gydag awgrymiadau ymarferol iawn ar gyfer cychwyn arni. | | ✓ |
| **Technegau Cyfranogiad Digidol** - Mae'r cwrs hyfforddi undydd hwn yn orlawn o dechnegau ac atebion i fynd â'ch cyfranogiad cymunedol i lefel newydd. Poblogaidd iawn. | ✓ | |
| **Cyfranogiad trwy Fideo** - Sylweddoli Pŵer Fideo - Bydd y diwrnod hyfforddi rhyngweithiol yma yn rhoi gwybodaeth a sgiliau ymarferol i gyfranogwyr i wneud a golygu fideo syml gan ddefnyddio technoleg ffôn clyfar / tabled fel dull effeithiol o gyfranogi ac ymgysylltu. | ✓ | |
| **Cyfathrebu Effeithiol** - Mae'r digwyddiad hanner diwrnod hwn yn canolbwyntio ar egwyddorion hanfodol ar sut i gynllunio a chyflwyno cyfathrebu. Mae'n addas ar gyfer pobl sy'n newydd i gyfathrebu ac eisiau dysgu am egwyddorion cadarn ynghyd ag enghreifftiau ymarferol. | | ✓ |
| **Lansio eich busnes lleol - Gan ddefnyddio pŵer digidol** - Gellir cyrraedd yr economi leol ac ehangach trwy sianeli digidol. Mae cwsmeriaid yn aros am eich gwasanaethau. Mae hwn yn addas ar gyfer y rheiny sydd am ddechrau eu busnes eu hunain, mentoriaid, a gweithwyr proffesiynol cyflogaeth. Gellir teilwra'r hyfforddiant o 1 awr i ddiwrnod llawn yn dibynnu ar y gofynion ac ystod a dyfnder y gofynion dysgu. | ✓ | ✓ |

| Datblygu Cymunedol | 1 Diwrnod | Hanner Diwrnod |
|---|---|---|
| **Recriwtio a Chadw Tenant Wirfoddolwyr** – Cwrs ymarferol gydag awgrymiadau gorau i ddenu (a chadw) gwirfoddolwyr. | ✓ | ✓ |
| **Cynnwys Pobl Ifanc yn eich Prosiectau/Gweithgareddau yn eich Cymuned** – Technegau i ddenu pobl ifanc i'ch prosiectau a gweithgareddau cymunedol. | | ✓ |
| **Dulliau Ymgysylltu Amgen** – bydd y cwrs yn eich helpu i nodi dulliau ymgysylltu addas. | ✓ | |
| **Edrych ar ôl eich Gwirfoddolwyr Cymunedol** - Awgrymiadau a syniadau gorau ar gyfer cefnogi, meithrin a datblygu eich gwirfoddolwyr cymunedol. | ✓ | ✓ |
| **Gwydnwch a Lles Cymunedol: y cysylltiadau i gyfranogiad** – Edrych ar y cysylltiadau rhwng cyfranogiad a chreu cymunedau gwydn a gwella lles. | | ✓ |

| Datblygu Cymunedol | 1 Diwrnod | Hanner Diwrnod |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad i Gyd-gynhyrchu** – Beth mae'n ei olygu a sut allwch chi weithio gyda'ch gilydd i lunio gwasanaethau. | | ✓ |
| **Cyflwyniad i Ddatblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau (ABCD)** Ydych chi'n gwybod eich ABCD? Cyflwyniad i'r dull yma o gefnogi a datblygu cymunedau. | | ✓ |

| Sgiliau Effeithiol | 1 Diwrnod | Hanner Diwrnod |
|---|---|---|
| **Delio ag Ymddygiad Heriol** – Yn ystod y cwrs bydd y cyfranogwyr yn deall yn well beth sy'n gyrru ymddygiad anodd a heriol a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdrin â hwy yn fwy effeithiol. | ✓ | |
| **Gwneud i Gyfarfodydd Weithio** – edrych ar sut i gael cyfarfodydd effeithiol sydd yn fyr ac i'r pwynt! | ✓ | ✓ |
| **Bod ar Fwrdd** – Y cyfan sydd angen i chi wybod am rôl a chyfrifoldebau bod ar fwrdd. | | ✓ |
| **Siopa Dirgel** – Tenantiaid yn gwirio ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd er budd pawb. | ✓ | |
| **Tenant Archwilwyr** - Tenantiaid a landlordiaid yn gweithio mewn partneriaeth i archwilio'r gwasanaeth (nid y staff), er budd pawb. | 2 Ddiwrnod | |
| **Rhedeg Grŵp Cymunedol** - Awgrymiadau gorau ar sut i redeg grŵp cymunedol effeithiol a chynrychioladol. | ✓ | ✓ |
| **Gosod Safonau Gwasanaeth** – Pam mae'n bwysig i gael safonau gwasanaeth ac i'w hysbysebu. | ✓ | |
| **Monitro Safonau Gwasanaeth** – Sut y gall tenantiaid gymryd rhan wrth fonitro'r safon gwasanaeth y mae eu landlord yn ei gynnig. | ✓ | |
| **Bod yn Dîm Effeithiol** – Sut i wneud eich tîm sefyll allan oddi wrth y dorf a gweithio gyda'ch gilydd i fod yn effeithiol. | ✓ | |

| Materion y Sector | 1 Diwrnod | Hanner Diwrnod |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad i Dai Cymdeithasol**<br>Mae'r cwrs hwn yn rhoi trosolwg o hanes tai cymdeithasol, ei rôl a'i gyfrifoldebau. | | ✓ |
| **Cyflwyniad i Gymdeithasau Tai**<br>Y cyfan sydd angen i chi wybod am Gymdeithasau Tai. | | ✓ |
| **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 - trosolwg**<br>Beth yw'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016? Sut fydd yn effeithio arnoch chi? | | ✓ |
| **Paratoi ar gyfer y Ddeddf Rhentu Cartrefi – gweithdy staff**<br>Cyfle i staff edrych yn fwy manwl ar y Ddeddf a'r hyn y gallant ei wneud yn awr i baratoi ar ei gyfer. | | ✓ |
| **Agoredrwydd a Thryloywder**<br>Sut all eich Cymdeithas Tai fod yn fwy agored a thryloyw yn dilyn ymlaen o adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus? | | ✓ |
| **Gwerth am Arian**<br>Cyflwyniad i'r hyn y mae gwerth am arian yn ei olygu mewn tai cymdeithasol. | | ✓ |
| **Cyfranogiad Tenantiaid: Bodloni Disgwyliadau Newidiol**<br>Y datblygiadau diweddaraf mewn cyfranogiad. Ydych chi ar y trywydd iawn? | | ✓ |
| **Cynnwys Tenantiaid mewn Gwerth am Arian**<br>Y rôl y gall tenantiaid ei chwarae wrth dystiolaethu gwerth am arian yn eu landlord. | | ✓ |
| **Rheoleiddio Cymdeithasau Tai a Rôl Tenantiaid**<br>Sut allwch chi sicrhau bod tenantiaid wrth wraidd trefniadau rheoleiddiol yn eich sefydliad? | | ✓ |
| **Cyflwyniad i faterion tai ar gyfer cynghorwyr/aelodau bwrdd newydd**<br>Beth yw'r materion ac arferion diweddaraf i fod yn ymwybodol ohonynt yn eich rôl? | | ✓ |
| **Gwneud y Mwyaf o Gwynion**<br>Mae cwynion yn gyfle nid yn fygythiad! Sut i ddysgu o anfodlonrwydd cwsmeriaid i wella'ch gwasanaethau. | | ✓ |
| **Deilliannau mewn Tai â Chymorth**<br>Sut i ysgrifennu, tystiolaethu a chofnodi canlyniadau ar gyfer eich Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth. | ✓ | ✓ |

| Craffu | 1 Diwrnod | Hanner Diwrnod |
|---|---|---|
| **Sgiliau ar gyfer Craffu** – sesiwn ymarferol a chyfranogol i ddatblygu'r holl sgiliau y byddwch eu hangen i chwarae rôl effeithiol wrth graffu. | ✓ | |
| **Mynd i'r Afael â Gwybodaeth Perfformiad a Data** – Awgrymiadau gorau ar sut i ddehongli a deall y ffeithiau a'r ffigyrau a roddir o'ch blaen! | ✓ | |
| **Craffu a Gwerth am Arian** Archwilio sut y gall tenant graffu helpu i ddangos tystiolaeth a chyflwyno gwerth am arian. | | ✓ |
| **Sut i Gyfathrebu eich Canfyddiadau ar Graffu** Pan fyddwch wedi gorffen eich proses o graffu - sut i rannu'ch canfyddiadau gydag eraill? | | ✓ |
| **Sgiliau Herio a Chwestiynu Heriol** Sut i herio a mynegi eich safbwynt mewn modd effeithiol a chadarn. | ✓ | |

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

# Mae TPAS Cymru hefyd wedi dyfeisio Asesiad Anghenion Dysgu a Hyfforddiant.

**Mae'r Asesiad Anghenion Dysgu a Hyfforddiant (AADH) yn ddull i helpu eich sefydliad neu grŵp ddarganfod pa wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd gennych ac i'ch helpu i nodi unrhyw fylchau.**

**Gall AADH helpu eich sefydliad / grŵp i gynllunio'r dysgu neu hyfforddiant angenrheidiol mewn modd effeithiol ac economaidd.**

Os hoffech ragor o wybodaeth am y cyrsiau a restrir, neu eisiau trafod eich anghenion penodol a chynnwys y cyrsiau, peidiwch betruso i gysylltu â ni ar: **02920 237303** neu **01492 593046**